| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 16 Chwefror 2022 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2021/22 – Adolygiad 3ydd Chwarter** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau’r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2021/22.<br><br>• Mae’r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Mae’r adolygiad 3ydd chwarter yn amcangyfrif tanwariant net o (£16,289) yn erbyn y gyllideb (sefyllfa lled niwtral yng nghyd-destun cyfanswm gwariant gros dros £17m).

1.2 Mae effaith Covid-19 yn parhau i effeithio ar benawdau unigol, ac mae’r rhan ddilynol o’r adroddiad yma’n egluro'r rhesymau tu ôl i’r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

### 2.1 Gweithwyr

**Chwarter 3: tanwariant (£70,371)** *Chwarter 2: tanwariant (£62,691)*

Rhagwelir sefyllfa o danwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 21/22 yn bennaf oherwydd trosiant staff, ynghyd ag arbediad bychan ar gostau eraill sydd yn gysylltiedig â staff (hyfforddiant, hysbysebu a.y.y.b). Rhagwelir cynnydd yn y tanwariant oherwydd trosiant staff, yn bennaf y swydd Rheolwr Busnes.

### 2.2 Adeilad:

**Chwarter 3: gorwariant £56,833** *Chwarter 2: gorwariant £58,883*

Mae'r gyllideb yma yn ddibynnol ar incwm allanol a defnydd adeiladau GwE gan brosiectau penodol fel rhan ohono. Yn sgil y pandemig mae ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu mabwysiadu, gyda llawer mwy o weithio o bellter, a chyfarfodydd rhithiol.

Erbyn hyn, mae defnydd bychan wedi cael ei wneud o'r swyddfeydd, gyda swyddogion yn cyfarfod wyneb yn wyneb ond wrth gadw pellter cymdeithasol. Ni ragwelir y bydd hyn yn sylweddol, ond yn debygol o ddenu incwm bach oherwydd ei defnydd gan brosiectau penodol.

### 2.3 Cludiant:

**Chwarter 3: tanwariant (£102,751)** *Chwarter 2: tanwariant (£75,862)*

Mae ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn, ond ddim i'r un raddfa a chyn yr argyfwng Covid. Mae sefyllfa Covid yn parhau i gael effaith, gyda hawliadau teithio yn dipyn llai i'r hyn rhagwelir yn y chwarter diwethaf. Bydd y pennawd yn destun adolygiad ar ffyrdd newydd o weithio.

### 2.4 Prosiectau Penodol:

**Chwarter 3: gorwariant £100,000** *Chwarter 2: niwtral*

Er adroddir ar sefyllfa o danwario ar gyllidebau craidd, bwriedir cyflymu gwariant ar gynlluniau mewnol a grantiau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol lle fu'n bosib. O wireddu'r cynlluniau hyn fe ragwelir y bydd sefyllfa net yr holl wasanaeth yn agos i gyllideb gytbwys, gyda gwariant pellach ar gynlluniau yn bwyta mewn i dan wariannau cyllidebau craidd megis y gyllideb Costau Teithio a.y.y.b.

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2021/22 oedd £563,530.

3.2 Yn seiliedig ar rhagolygon y sefyllfa bresennol fe amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £579,819 ar ddiwedd 2021/22, yn dilyn ychwanegiad y tanwariant o £16,289 a ragwelir uchod.

**ATODIADAU**
Atodiad 1: Cyllideb GwE 2021/22 – Adolygiad 3ydd Chwarter.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad